**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021**

**09.30 - 13.15**

**Microsoft Teams**

**Yn bresennol**:

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwyr: | Gareth Pierce<br>Ann Beynon<br>William Callaway<br>Nia Elias<br>Yr Athro Jerry Hunter<br>Meri Huws<br>Dr Anwen Jones<br>Gwilym Dyfri Jones<br>Pedr ap Llwyd<br>Llinos Roberts<br>Angharad Roberts<br>Yr Athro Enlli Thomas |
| Sylwedyddion: | Iwan Evans, UCMC<br>Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)<br>Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru<br>Denise Williams, Aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant<br>Rhian Huws Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant |
| Swyddogion: | Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr<br>Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd<br>Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd<br>Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu<br>Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant<br>Rhian Jones, Rheolwr Academaidd<br>Dr Lowri Morgans, Rheolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau<br>Gwenllian Owen, Rheolwr Academaidd (Eitem 10) |
| Ymddiheuriadau: | Dr Rhodri Llwyd Morgan |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau gweithredu | Cyfnod amser |
|---|---|---|---|
| **1. Croeso a materion rhagarweiniol** | 1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>1.2 Croesawyd Rhian Huws Williams a Denise Williams o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.<br><br>1.3 Nodwyd ymddiheuriadau gan Dr Rhodri Llwyd Morgan ar achlysur ei gyfarfod olaf gan nodi gwerthfawrogiad am ei wasanaeth ar y Bwrdd ac fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. | | |
| **2. Datganiadau o ddiddordeb** | 2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| **3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 17 Mawrth 2021**<br><br>**(Eitem 3)** | 3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021.<br><br>3.2 Argymhellwyd ystyried ychwanegu crynodeb o'r pwyntiau gweithredu ar ddiwedd y cofnodion. | | |
| **4. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 25 Mai 2021 (Eitem 5)** | 4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021. | | |
| **5. Materion y Cadeirydd** | 5.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar ei ymwneud diweddar gyda staff y Coleg; paratoadau ar gyfer cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg newydd, Jeremy Miles; cydweithio gyda Pedr ap Llwyd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar faterion caeëdig y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol; a gyda Rhian Huws Williams ar gylch nesaf penodiadau i'r Bwrdd.<br><br>5.2 Adroddodd yr ymunodd â'r Gynhadledd Wyddonol; a'r Gynhadledd Ymchwil gan nodi diolch i Dr Anwen Jones a'r Athro Enlli Thomas am gadeirio. Canmolwyd ystod yr ysgolheictod a hynny yn sgîl buddsoddiad y Coleg. | | |
| **6. Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>**(Eitem 8)** | 6.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar.<br><br>**Cynllunio ac Ymgysylltu**<br><br>6.2 Adroddwyd ar gyfarfod a drefnwyd y prynhawn hwnnw (30 Mehefin) gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a thrafodaethau gyda swyddogion ynghylch Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050.<br><br>6.3 Trafodwyd y bwriad i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg yn ystod tymor y Senedd, a'r cyfeiriad at y Coleg mewn sylwadau gan y Gweinidog mewn perthynas â hynny. Trafodwyd yr angen i ystyried y goblygiadau hyn yn ofalus maes o law a hefyd y gyd-berthynas gyda'r ddeddfwriaeth i sefydlu Comisiwn Trydyddol. Argymhellwyd y dylid ystyried cyrchu cyngor cyfreithiol penodol ar gynnwys y ddeddf maes o law.<br><br>6.4 Nodwyd bod y swyddogion yn arbrofi ar ddull adrodd newydd i Lywodraeth Cymru a bod yr adroddiad drafft wedi ei gylchredeg ar wahân. Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ymhen yr wythnos. Mae'r dull adrodd newydd yn disodli'r angen am | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddariadau gan reolwyr fel atodiad i Adroddiad y Prif Weithredwr.<br><br>**Trefniadau gweithio a llesiant staff**<br><br>6.5 Adroddwyd bod nifer o staff wedi dechrau gweithio o swyddfeydd y Coleg yn achlysurol. Adroddwyd y rhagwelir y bydd cyfnod trosiannol a fydd yn arwain maes o law at sefydlu trefniadau gweithio newydd mewn ymgynghoriad â'r staff. Bydd y Coleg hefyd yn rhannu arfer da gyda chyrff eraill wrth ymgymryd â'r broses hon.<br><br>**Dathliadau**<br><br>6.6 Adroddwyd ar y bwriad o drefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu dengmlwyddiant y Coleg gyda phenllanw posibl yn Eisteddfod Genedlaethol 2022.<br><br>6.6 Adroddwyd ar drefniadau cyflwyno gwobrau'r Coleg ar gyfer eleni. | | |
| **7. Bwrdd Academaidd**<br><br>**(Eitem 9)** | **Cofnodion Bwrdd Academaidd**<br><br>7.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021.<br><br>7.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 12 Mai 2021, gan Gwilym Dyfri Jones, Cadeirydd y Bwrdd Academaidd:<br><br>• mai gwaith y cyfnod nesaf fyddai cynllunio academaidd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth cyn y cyfarfod nesaf<br>• diweddariad ar ddeunyddiau dysgu digidol cyfrwng Cymraeg<br>• ail-sefydlu a chodi ymwybyddiaeth o gydweithio traws-sefydliadol<br>• bod y Coleg eisoes wedi meithrin dros 150 o fyfyrwyr doethuriaeth<br>• cynnydd yn yr Ysgoloriaethau Cymhelliant (500 yn 2020/21 o gymharu â 150 yn 2016/17)<br><br>7.3 Cafwyd trafodaeth ar y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRHY/REF) gan nodi:<br><br>• prinder cyhoeddi sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• nad oedd ystadegau ynghylch cyhoeddi yn y Gymraeg (FfRHY) am eleni eto ond bod modd gwneud gwaith dadansoddi trwy'r sefydliadau<br>• bod y Coleg wedi rhoi estyniad chwe mis gyda chyllid ychwanegol i fyfyrwyr doethuriaeth os oedd Covid wedi effeithio ar eu gallu i gwblhau eu hymchwil<br><br>7.4 Argymhellwyd codi ymwybyddiaeth o'r deunyddiau dysgu digidol Addysg Uwch a'u rhannu, os yn addas, gyda sefydliadau Addysg Bellach. Cytunwyd i dynnu sylw drwy'r newyddlen ôl-16 a hefyd y Cynllun Gwreiddio. | Hybu deunyddiau dysgu digidol | Parhaus |
| **8. Addysg Uwch**<br><br>**(Eitemau 10i a 10ii)** | **Adroddiad ar niferoedd myfyrwyr 2019/20 a Gwerthusiad o'r Cynllun Grantiau Pynciol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymunodd Gwenllian Owen ar gyfer yr eitem hon yn unig | 8.1 Cyflwynwyd adroddiadau ar niferoedd myfyrwyr 2019/20 a Gwerthusiad o'r cynllun Grantiau Pynciol gan yr Ysgrifennydd.<br><br>8.2 Adroddwyd bod fersiwn gyfredol Cynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg yn bum mlwydd oed eleni, a'i fod yn amserol i adolygu'r Cynllun ac ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.<br><br>**Niferoedd myfyrwyr 2019/20**<br><br>8.3 Adroddwyd ar y data HESA diweddaraf ar gyfer 2019/20, gyda dadansoddiad o'r patrymau newid o safbwynt niferoedd y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, niferoedd sy'n astudio o leiaf 5cr ac o leiaf 40cr trwy gyfrwng y Gymraeg, cyrhaeddiad y prifysgolion yn erbyn y targedau cyfrwng Cymraeg sydd yn eu Cynlluniau Ffioedd i HEFCW, a phatrymau o newid fesul pwnc.<br><br>8.4 Adroddwyd bod y cyfanswm sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol yn rhannol oherwydd bod gostyngiad yn niferoedd siaradwyr Cymraeg yn dros hanner y prifysgolion. Mae'r gostyngiad hefyd yn perthyn i un brifysgol yn benodol.<br><br>**Gwerthusiad o'r Cynllun Grantiau Pynciol**<br><br>8.4 Adroddwyd ar y gwerthusiad o'r cynllun Grantiau Pynciol sef, prif gynllun ariannol y Coleg ar gyfer cefnogi darpariaeth mewn prifysgolion. Ymddengys bod y Grantiau Pynciol ar y cyfan wedi llwyddo i lenwi bwlch ar ôl i'r Cynllun Staffio Academaidd ddod i ben. Ond, mae dylanwad y Grantiau Pynciol yn gyfyngedig i ychydig o adrannau academaidd, ac mai dim ond 24% | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o'r 'pwll potensial' o siaradwyr Cymraeg yn y sector Addysg Uwch sy'n astudio yn un o'r adrannau hynny. Felly, mae niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg nad oes mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg iddynt.<br><br>8.5 Yn ystod cyflwyniad pŵerbwynt yr Ysgrifennydd atgoffwyd yr aelodau sut mae patrymau cyllido'r Coleg wedi esblygu ar hyd y blynyddoedd tan nawr a rhoddwyd crynhoad o'r penawdau a ystyrir wrth gynllunio camau nesaf y Cynllun Academaidd Addysg Uwch.<br><br>8.4 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:<br><br>• Y posibilrwydd o gynnal trafodaeth pellach gyda HEFCW ynghylch data gan nodi fod cyfrifoldebau statudol yn gorwedd gyda phrifysgolion i gyflwyno data cywir i HEFCW a'r asiantaeth ystadegau Addysg Uwch (HESA); hefyd fod manylder y data sydd angen ar y Coleg tu hwnt i'r lefel a gesglir gan HEFCW ar hyn o bryd<br>• Y posibilrwydd y gallai Prifysgol Bangor rannu arfer da ar ddychwelyd data cyfrwng Cymraeg<br>• Codi hyder a chymhelliant<br>• Pwysigrwydd cefnogi'r llai hyderus e.e. gyda thiwtoriaid personol<br>• Cynnal adolygiad o waith y canghennau yn Addysg Uwch i weld beth sy'n gweithio<br>• Pwysigrwydd gwarchod 40cr a mwy<br>• Pwysigrwydd llais y myfyriwr<br>• Pwysigrwydd cydweithio a photensial darpariaeth gydweithredol | | |

<table>
<tr><td></td><td>

- Sgiliau proffesiynol – bydd myfyrwyr yn wynebu'r un her hyder iaith yn y gweithle a’r angen i gyflwyno cymwysterau sy’n apelgar i gyflogwyr

8.5 Atgoffwyd y Bwrdd nad oes cynnydd wedi bod yng nghyllideb Addysg Uwch y Coleg mewn pum mlynedd a bod angen cofio hyd a lled adnoddau a chapasiti’r Coleg i weithredu.

8.6 Cytunwyd ar yr argymhellion:

- Swyddogion y Coleg i ddatblygu cyfres o gynigion (ar sail tystiolaeth wedi’u gefnogi gan y data, ac yn adeiladu ar y syniadau a amlinellwyd ym ‘Maniffesto’ y Coleg) ar gyfer blaenoriaethau cynllunio academaidd yn y sector Addysg Uwch yn ystod y cyfnod nesaf.
- Swyddogion i ymgynghori gyda’r sector yn ystod y misoedd nesaf, gan gynnwys trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 13 Hydref 2021.
- Papur opsiynau i’w gyflwyno i’r Bwrdd Cyfarwyddwyr yng nghyfarfod 17 Tachwedd 2021.

*Ar y pwynt hwn ymunodd yr Athro Enlli Thomas ac ymadawodd yr Athro Jerry Hunter*

</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>

**9. Addysg Gychwynnol Athrawon**

**(Eitem 11)**

</td><td>

**Addysg Gychwynnol Athrawon**

9.1 Cyflwynwyd adroddiad, a baratowyd ar y cyd gyda Rhian Jones, ar Addysg Gychwynnol Athrawon gan y Cofrestrydd.

</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 9.2 Adroddwyd ar nifer o gyfarfodydd rhwng swyddogion y Coleg a phenaethiaid adrannau/canolfannau sy'n darparu Addysg Gychwynnol Athrawon ynghylch y camau i sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd ar yr heriau recriwtio, hyder ieithyddol, statws y proffesiwn, cyd-lyniant marchnata a hyblygrwydd llwybrau astudio.<br><br>9.3 Trafodwyd a nodwyd y sylwadau canlynol:<br><br>• Yr angen am farchnata cyd-lynus genedlaethol<br>• Cymhwyso athrawon aml-bynciol<br>• Ystyried portffolio ymchwil gwahanol<br>• Codi hyder ieithyddol e.e. cynnig cwrs TAR dwy flynedd<br>• Sut i gadw hyfforddeion yng Nghymru? – Cynllun pontio a phrofiad gwaith ar gyfer hyfforddeion sydd wedi cymhwyso tu allan i Gymru<br>• Codi statws e.e. Teach First<br>Cadw mewn cof bod profiad y myfyriwr wedi bod yn wahanol eleni gan fu cyfle i gwblhau ymarfer dysgu yn y ffordd arferol oherwydd Covid<br>• Sgil-effaith hir dymor os na fyddwn yn hyfforddi athrawon Cymraeg fydd diffyg myfyrwyr yn y dyfodol<br>• Angen fod yn wyliadwrus o ymwneud y Coleg o gofio capasiti'r staff canolog.<br><br>9.4 Cytunwyd y dylai'r swyddogion gynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru, y Cyngor Gweithlu Addysg ac unrhyw gyrff perthnasol eraill er mwyn sicrhau camau gweithredu; adnabod corff i arwain ar y gwaith; ac i flaenoriaethu adnoddau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 9.5 Cadarnhawyd cefnogaeth y Bwrdd i'r angen am strategaeth genedlaethol gydlynus ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg ac y dylai sefydlu rôl benodol i'r Coleg oddi fewn i'r strategaeth honno. | | |
| **10. Bwrdd Strategol ôl-16**<br><br>**(Eitem 12)** | **Bwrdd Strategol ôl-16**<br><br>10.1 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 9 Mehefin 2021, gan Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16:<br><br>• Bod presenoldeb aelodau ar ei orau yn y cyfarfodydd rhithiol<br>• Bod cynnydd yn y meysydd<br>• Cyllid wedi'u ddosbarthu i'r colegau ar ffurf Grantiau Datblygu<br>• 20 cynllun nawr o gymharu â chwech y llynedd<br>• Heriau cymwysterau, ac yn benodol diffyg argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Amaethyddiaeth<br>• Trafodaethau gyda chyflogwyr a Ffederasiwn Busnesau Bychain<br>• Rhwydweithio gyda staff y colegau<br>• Adnabod heriau a dathlu cynnydd yn ystod y dwy flynedd diwethaf er gwaethaf Covid<br>• Rhannu data ynghylch myfyrwyr rhwng y sectorau<br>• Edrych ar feysydd eraill er mwyn bwydo'r gweithlu.<br><br>**Cofnodion y Bwrdd Strategol ôl-16**<br><br>10.2 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 10.3 Dymunwyd yn dda i Dr Lowri Morgans ar achlysur ei phriodas. | | |
| **11. Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br><br>**(Eitem 13)** | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br><br>11.1 Cyflwynwyd adroddiad ar Addysg Bellach a Phrentisiaethau gan y Cofrestrydd.<br><br>11.2 Rhoddwyd diweddariad ar y grantiau a ddyranwyd ar gyfer 2021/22. Eglurwyd o'r £810,000 gan Lywodraeth Cymru bod £610,000 eisoes wedi'u ddyfarnu gyda'r gweddill i'w wario ar gostau staff ac unrhyw prosiectau eraill a amlygir cyn diwedd yr haf.<br><br>11.3 Adroddwyd ar sefyllfa cymwysterau a chyrff dyfarnu a hynny'n benodol ym maes blaenoriaeth Amaethyddiaeth a phynciau yn ymwneud â'r Tir. Eglurwyd bod City and Guilds wedi ennill y tendr ar gyfer y cymwysterau a bod gofid na fyddent ar gael yn y Gymraeg yn enwedig o ystyried natur ieithyddol y safleoedd.<br><br>11.4 Cytunwyd ar ddau fater tymor canolig:<br>i. Pwysigrwydd sefydlu model cyllido ar gyfer yr hir-dymor mewn cydweithrediad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru<br>ii. Blaenoriaethau pynciol sef<br>• cynnal trafodaeth yn Bwrdd Strategol ôl-16 Tymor yr Hydref ar flaenoriaethau'r flwyddyn ddilynol h.y. byddai Bwrdd Hydref 2021 yn trafod blwyddyn 2022/23<br>• Trafod canlyniadau'r drafodaeth yn y Bwrdd Strategol ôl-16 gyda Llywodraeth Cymru | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cytuno blaenoriaethau pynciol ym Mwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg sef cyfarfod y Gwanwyn | | |
| **12. Amrywiaeth**<br><br>**(Eitem 15)** | **Ymateb y Coleg i wrth-hiliaeth**<br><br>12.1 Cyflwynwyd adroddiad ar ymateb y Coleg i wrth-hiliaeth gan y Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu.<br><br>12.2 Adroddwyd bod y Coleg wedi sefydlu grŵp mewnol i ddatblygu polisïau i fynd i'r afael ag amrywiaeth. Trefnwyd hyfforddiant i staff gan gynnwys canllaw ymarferol. Adroddwyd bod awdit ar y gweill i gasglu data i gynyddu ymwneud; a bod y Coleg wedi comisiynu prosiect ymchwil trwy EYST Cymru i ddarganfod profiad DALIE o'r system addysg Gymraeg.<br><br>12.3 Trafodwyd:<br>• rhannu profiad<br>• trafodaethau gydag Ymlaen AU (Advance HE)<br>• Datblygiad personol<br>• Pwysigrwydd gweithredu yn erbyn polisi<br><br>12.4 Cytunwyd ar yr argymhelliad i ddefnyddio rhan o incwm y buddsoddiadau ar gyfer cyllido swydd newydd yn y maes yn unol â chytundeb y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i neilltuo swm penodol i gefnogi gwaith y Coleg. | | |
| **13. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**<br><br>**(Eitem 18i)** | **Cofnodion Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 13.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021. | | |
| **(Eitem 18ii)** | **Strategaeth benodi** | | |
| | 13.2 Cyflwynwyd strategaeth benodi cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd. | | |
| | 13.3 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y pwyntiau canlynol:<br>• Yr angen am sgiliau cyfrifyddiaeth<br>• Hyfforddiant a mentora i ddatblygu cyfarwyddwyr newydd er mwyn ateb amrywiaeth<br>• Posibilrwydd o eithrio ymgeiswyr gyda'r angen am brofiad o weithio'n strategol<br>• Yr angen am ymgyrch marchnata mwy eang<br>• Heriau a rhinweddau defnyddio cymorth proffesiynol<br>• Cadw golwg o ran capasiti staff y Coleg i wireddu dyheadau<br>• Cymorth posibl Grŵp Ysgrifenyddion Prifysgolion Cymru o ran amrywiaeth<br>• Bod rhwydwaith Addysg Bellach wedi arwain at bobl newydd i'w meithrin | | |
| | 13.4 Cymeradwywyd y strategaeth. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Branwen Thomas* | | |
| **(Eitem 18iii)** | **Dogfen Llywodraethiant** | | |
| | 13.5 Derbyniwyd y diwygiadau i gynnwys y Bwrdd Strategol ôl-16 yn y Ddogfen Llywodraethiant. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (Eitem 18iv) | **Holiadur Gwerthuso**<br><br>13.6 Derbyniwyd adroddiad ymatebion holiadur gwerthuso'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Rhoddir ystyriaeth i ddiwygio a mireinio'r broses, o gofio bydd y Coleg yn mabwysiadu fframwaith werthuso gyffredin Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus maes o law. | | |
| (Eitem 18v) | **Rhaglen Hyfforddiant**<br><br>13.7 Derbyniwyd rhaglen hyfforddiant aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau. | | |
| (Eitem 18vi) | **Adroddiad Blynyddol**<br><br>13.8 Derbyniwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. | | |
| **14. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf** | 14.1 Argymhellwyd trefnu cyfarfod arall i drafod yr eitemau a oedd yn weddill ar yr agenda.<br><br>14.2 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd sydd wedi eu pennu ar gyfer y flwyddyn nesaf:<br>• 17 Tachwedd 2021<br>• 23 Mawrth 2022<br>• 29 Mehefin 2022<br><br>14.3 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd. | | |